CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 19eg TACHWEDD 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. W R Parry (Cadeirydd) Cyng. Mrs L Roberts (Is-Gadeirydd) Cyng. J Evans, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, D T Roberts. Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. Ms N Dafydd, G Jones, R R Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

CAEL COFNODION 15eg Hydref 2024 YN RHAI CYWIR:
Cafwyd yn gywir ar ol newidiad, Dywedodd Cyng. J E Lewis nad oedd wedi cynnig (Rhif 13. Mynwent Gymunedol) er bod y Clerc wedi ei gofnodi ac wedi cael ei eilio. Cynnig Cyng. J Evans ac eilio gan Cyng. D T Roberts i ail dderbyn.
Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. J Evans. (yn gywir)

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Neuadd Goffa. Cyn rhoi ystyried i gais ariannol, penderfynwyd gofyn am Fantolen Ariannol. Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. R G Parry.

Cae Chwarae. R`oedd Cyng. J Evans a J E Lewis wedi bod yn cael golwg ar y giat sydd angen sylw. Mae bach gwaelod wedi torri ac angen weldio. Cafwyd golwg gan weldiwr lleol ond nid oedd ganddo y math oedd angen i`w drwsio ar y safle, am fod y polyn mewn concrid a bydd rhaid i`w dynnu allan i gwblhau y gwaith.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2024/289. Cais llawn ar gyfer codi garej ynghyd ag estyniad i`r cwrtil yn:-
   Llys Helyg, Bodffordd.
   Dim sylwadau.
   Cynnig Cyng. R G Parry eilio Cyng. J Evans.

2. HHP/2024/197. Cais llawn i ddymchwel y garej bresennol ynghyd a chodi estyniad ochr a chefn yn:-
   21 Caer Delyn, Bodffordd.
   Angen cynlluniau gan y Cyngor Sir. Y Clerc yn cysylltu.
   Cynnig Cyng. J Evans eilo Cyng. R G Parry.

PENDERFYNIADAU.

3. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Arolwg Canol Trefi yn cychwyn.
   Bydd Ymgynghoriad yn dechrau ar y 30ain Hydref er mwyn casglu adborth ar gyfer Amlwch, Biwmares, Caergybi, Llangefni a Porthaethwy er mwyn ffurfio rhan o strategaeth gwella canol trefi yr Ynys. Rhaglen creu lleoedd "Lle Da Mon" yn ariannu gan y DU.
   Arolygon: yma: www.ynysmon.llyw.cymru/ymgynghoriad-canol-trefi
   Hefyd Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-2028 Medi 2023.
   https://wwwynysmon.llyw.cymru/cy/Busnes/Adfywio/Adfywio-canol-tref.aspx
   Cyngor yn derbyn y wybodaeth, a gobeithio y ceir llawer o adborth yn y cyfamser.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Fforwm Cynghorau tref a Chymuned-Nos Fawrth 10ed Rhagfyr 2024 am 6.30yh - Cyfarfod Rhithiol (Zoom) Daw manylion pellach.
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth. Cyng. J E Lewis fydd y Cynrychiolwr.

6. Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Adran Priffyrdd - Arwel Evans.
   Llwybr Lon Concrid, Bodffordd. (Rhif 14/021/1)
   R`oedd y giat fochyn wedi gael ei chlymu gyda cortyn, ond mae y Cyngor Sir wedi ei dynnu. Mae`r giat yn agor ond mae ei chyflwr yn wael. Mae angen cryn dipin o waith ar y llwybr yma ar llwybrau cysylltion fwy i`r gorllewin. Byd gwelliannau yn y misoedd nesaf. A posibilrwydd o giat fochyn newydd ar ochr y lon pryd hynny.

   Llwybr PenyBryn, Tynlon i Eiranellt Groes, Tynlon. (Rhif 14/030/1.)
   Y rhwystr sydd yma ydyw i`r gogledd ddwyrain o PenyBryn. Ar hyn o bryd nid ydyw yn briodol arwyddo y llwybr ar y ddau ben. Roedd y Cyngor Sir wedi gobeithio gwneud y gwaith yn y 2 flynedd diwethaf. Ond tynwyd sylw gan y tirfeddiannwr fod fadfallod cribog yn gyfagos i`r llwybr lle mae`r rhwystr. Oherwydd fod trafferth wedi bod i gael trwydded gan Cyfoeth Naturiol, gadawyd. Bydd cysylltiad yn cael ei wneud efo`r perchennog eto i sicrhau ei fod yn rhoi camfa lle mae`r rhwystr. Pan fydd wedi ei gwblhau ac yn glir bydd yr arwyddion yn cael ei gosod.

   Llwybr ger Capel Seion, Llandrygarn. (Rhif 14/038/1)
   Gordyfiad jest i`r dwyrain o`r Capel, a darnau eraill angen sylw. Gofyn i`r Cyngor Cymdeithas wneud y gwaith. Bydd y Cyngor yn cael amcangyfrif yn fuan i gael ei wneud.

   Llwybr Cae Bach i (ger) Bryn Tancwy, Tynlon. (Rhif 14/031/1)
   Rhybudd gorfodaeth i`r perchennog i ddatrys y rhwystr trwy osod camfa neu giat oherwydd fod ffens wedi ei rhoi ar draws. Gamfa bren yn y pen deheuol wedi torri felly bydd rhybudd gorfodaeth i`r perchennog i`w newid. Tyfiant yn y pen deheuol gan ac o gwmpas yr arwyddbost, bydd y Cyngor sir yn gwneud y gwaith yma. Mae yr arwyddion yn foddhaol.

   Llwybr Bryn Mawr i Afallon, Tynlon. (Rhif 14/032/1)
   Ffens wedi ei rhoi ar draws y llwybr o flaen camfa garreg, rhybudd i`r perchennog i`w thynnu. Nid yw`r palet ar y gamfa arall yn achosi llawer o anhawster am ei bod yn hawdd i`w symud, a dim wedi ei chlymu. Arwydd yn y pen deheuol yn cael ei wneud yn y dyfodol agos.

   Mae yn hanfodol fod y perchnogion llwybrau yn edrych ar ei hol. Maent yn gyfrifol.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Cyng. J E Lewis i`w ddarllen.

8. Glasffordd Mon. Holiadau`r Asesiad Bioamrywiaeth - Laura Thomas.
   Prosiect sy`n cael ei gynnal ar hyn o bryd. qr.codes/HhB3aK
   Mae yn bwysig fod y cyhoedd yn ymateb i`r Holiadu`r.

9. Llywodraeth Cymru - Martin Ball.
   Y cyfanswm gwariad dan adran 137(1) a (3) am y flwyddyn 2025 - 26 fydd £11.10 yr etholwr.
   Cynyddu o £10.81 i £11.10.
   Gwybodaeth a`r cyngor yn derbyn. Dim sylw.

RHODDION.

10. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.
    Cyng. R G Parry yn cynnig gyda Cyng. J E Lewis yn eilo ein bod yn cyfrannu.
    Cynnig Cyng. Mrs L Roberts, eilio Cyng. J Evans i rhoi £100.00.

11. Glorian.
    Cyng. J Evans yn cynnig gyda Cyng. Miss B Owen yn eilio ein bod yn cyfrannu.
    Cynnig Cyng. Mrs L Roberts, eilio Cyng. J E Lewis i rhoi £50.00

PLWYFOL.

12. Darllenwyd Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd (gan Cyng. D T Roberts.)
    Diolchwyd iddi am ei gwaith da.

MATERION ARIANNOL.

13. Cyfrif Rhedegol. £21,083.56.

    Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,010.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

14. Clerc £470.00. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru £100.00. Glorian £50.00

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. Miss B Owen.

D Owen (Clerc)